



**Diolch i chwaraewyr
y Loteri Genedlaethol**
**Thanks to National
Lottery players**

**CALON
TAF**



calontaf.co.uk  
CalonTaf@rctcbc.gov.uk

Llwybr Treftadaeth i Deuluoedd

Family Heritage Trail

**Ewch am dro drwy'r parc a gweld parc
sy'n cofio ei orffennol.**

**Take a stroll through the park and discover
a park that remembers its past.**



**Parc Coffa
YNYSANGHARAD**
War Memorial Park
Pontypridd CF37 4PE



**Trawsnewid Trefi
Transforming Towns**



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**



RHONDDA CYNON TAF

Croeso i'n Llwybr Treftadaeth i Deuluoedd!

Paratowch ar gyfer taith hwyl a hynod ddiddorol trwy ein parc hardd!

Wrth ichi ddilyn y llwybr yma, byddwch yn camu'n ôl mewn amser i ddysgu am hanes Parc Coffa Ynysangharad. Byddwch yn cael gwybod yr hyn oedd yma gynt, sut cafodd y parc ei greu, a'r nifer o nodweddion diddorol sy'n ei wneud yn arbennig heddiw.

Oeddech chi'n gwybod bod y parc yma er cof am y rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-1918)? Fe'i gwnaed yn bosibl diolch i roddion gan bobl leol a chyllid o Gronfa Les y Glowyr.

Heddiw, mae'r parc yn parhau i fod yn lle gwerthfawr i'r gymuned, gan ddod â phobl ynghyd ar gyfer diwylliant, hamdden ac ymlacio. Parc yw ef ar gyfer y bobl, yn wir!

- Wrth i chi grwydro'r parc a chael gwybod ei hanes cyfoethog, cofiwch:
- Parchu'r parc:**
Ewch â sbwriel adref gyda chi neu ei roi mewn biniau sbwriel. Cadwch at lwybrau neu fannau wedi'u tocio, gan fod gwair hir a 'pharthau gwyllt' yn gartrefi i lawer o greaduriaid na ddylid tarfu arnyn nhw.
 - Rhannu'r parc:**
Cadwch lygad am gerddwyr, rhedwyr a beicwyr.
 - Trysorau byd natur:**
Mae'n iawn i godi brigau, dail a blodau sydd eisoes wedi cwmpo i'r llawr, ond dylen ni adael y rhai sydd heb yn eu lle er mwyn i bawb allu parhau i edmygu eu harddwch.

I gael rhagor o wybodaeth am y parc:
www.rctcbc.gov.uk/ParcCoffaYnysangharadPontypridd



Welcome to our Family Heritage Trail!

Get ready for a fun and fascinating journey through our beautiful park!

As you follow this trail, you will step back in time to uncover the history of Ynysangharad War Memorial Park learning about what stood here before, how the park was created, and the many interesting features that make it special today.

Did you know that this park was dedicated to those who lost their lives in the First World War of 1914-1918? It was made possible thanks to donations from local people and funding from the Miners' Welfare Fund.

Today, the park continues to be a treasured place for the community, bringing people together for culture, recreation, and relaxation. A true people's park!

- As you explore the park and discover its rich history, please remember to:
- Respect the park:**
Take litter home or place them in litter bins. Stick to paths or mown areas, as long grass and 'wild zones' are homes for lots of creatures that shouldn't be disturbed.
 - Share the space:**
Keep an eye out for walkers, runners and cyclists.
 - Nature's treasures:**
It's fine to pick up twigs, leaves and flowers that have already fallen to the ground, but we should leave those that haven't in their place so that everyone can continue to admire their beauty.

For more information on the park:
www.rctcbc.gov.uk/YnysangharadWarMemorialParkPontypridd

Gwybodaeth am y daith gerdded yma:
Mae'r llwybr treftadaeth 1.5km yma'n addas i deuluoedd a bydd yn cymryd tua awr os byddwch chi'n oedi ym mhob man aros ar hyd y ffordd.
Mae'r llwybrau wedi'u cynllunio ar gyfer amrywiaeth o anghenion symudedd, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn a chadeiriau gwthio. Ond sylwch fod y llethr sy'n arwain i'r ardd isel yn eithaf serth, a bydd angen defnyddio grisiau i fynd at y safle seindorf, er bod yr ardal o'i amgylch yn hygyrch.

Mae'r llwybr yn cynnwys cyfleuster toiled a chaffi. Cofiwch hefyd fod llefydd bwyta a diod ar gael yng nghanol y dref.

Calon Taf 1 Calon Taf

Ar un adeg, roedd y parc yn rhan o ystâd ffermio hanesyddol wedi'i lleoli o amgylch Tŷ Ynysangharad, sef cartref y teulu Lenox, a sefydlodd Waith Cadwyni Brown Lenox.

Mae'r wal frics hir sydd yno heddiw yn nodi'r fan lle safai gardd gegin y tŷ ar un adeg. Bellach, rhan allweddol yw hi o'n canolfan treftadaeth a dysgu, gan ddod â hanes yn fyw i ymwelwyr o bob oed.

Safle Seindorf 2 Bandstand

Ers 1926, mae teuluoedd a ffrindiau wedi ymgasglu yma i wrando ar gerddoriaeth bandiau pres, sef traddodiad pwysig yn ein cymuned.

Cafodd y bandiau yma'u sefydlu gan lowyr lleol, gan adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog yr ardal.

Cofeb Ryfel 3 War Memorial

Agorodd Parc Coffa Ynysangharad yn 1923, er mwyn cofio'r rhai a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-1918).

Bellach, rydyn ni'n dod at ein gilydd yma i gofio a thalu teyrnged i bawb a wasanaethodd mewn rhyfeloedd, ddoe a heddiw.

Chwaraeon 4 Sports

Mae criced wedi bod yn gamp bwysig yma ers dros 150 o flynyddoedd. Diolch i Lewis Gordon Lenox, cafodd cae criced ei sefydlu yma yn 1924.

Mae yma hefyd gyfleusterau bowls, tennis a phêl-droed. Cyn symud i Heol Sardis yn 1974, roedd Clwb Rygbi Pontypridd yn chwarae yma.

Gardd isel yn y dull Eidalaidd 5 Italian-style Sunken Garden

A welwch chi'r dram glo? Cafodd y wagenni yma'u defnyddio i gludo glo o dan ddaeaf i'r wyneb.

Yn y dyddiau a fu, byddai plant a menywod yn eu gwrthio drwy'r pyllau glo. Atgof yw'r dram glo yma o Gronfa Les y Glowyr, a helpodd i brynu'r parc ar gyfer pobl y dref.

Lido Cenedlaethol Cymru 6 National Lido of Wales

Agorodd y Lido yn 1927 yn fan arbennig i deuluoedd fwynhau a chadw'n heini, diolch i Gronfa Les y Glowyr.

Ar ôl bod ar gau am fwy na 29 o flynyddoedd, cafodd ei adfer a'i ailagor yn 2015. Roedd y gwaith adnewyddu'n cynnwys ailgyflwyno'i nodweddion hanesyddol ac agor canolfan i ymwelwyr newydd, gan ei wneud yn fan gwyich i bawb gael hwyl ac ymlacio.

Ffynnon Gordon Lenox 7 Gordon Lenox Fountain

Mae'r ffynnon yfed yma er cof am Lewis Gordon Lenox a oedd yn rhan allweddol o waith sefydlu'r parc.

Roedd ffatri ei deulu ym Mhontypridd yn gwneud cadwyni anferth ar gyfer llongau a diwydiannau eraill. Dros 120 o flynyddoedd yn ôl, roedden nhw hyd yn oed yn gwneud cadwyni angori mwyaf y byd!

Arwyr Lleol 8 Local Heroes

Wrth ichi gerdded ar hyd y llwybr, fe welwch ffigurau sy'n ein hatgoffa o'r lluo o bobl leol a wasanaethodd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys milwyr, morwyr, awyrenwyr a nyrsys.

Chwaraeodd yr arwyr yma ran bwysig yn ymdrech y rhyfel.

Cofeb Evan James a James James 9 Evan and James James Memorial

Mae'r gofeb yma er cof am y tad a'r mab a gyfansoddodd Anthem Genedlaethol Cymru "Hen Wlad Fy Nhadau" ym Mhontypridd yn 1856.

Mae'r cerflun yma gan y cerflunydd enwog Cymreig, William Goscombe John, yn symboleiddio eu cyfraniad at gerddoriaeth a barddoniaeth.

About this walk:
This 1.5km family-friendly heritage trail takes approximately one hour if you pause at each stopping point along the way.

The pathways are designed to accommodate a range of mobility needs, including wheelchair users and pushchairs. However, please note that the slope leading into the sunken garden is quite steep, and access into the bandstand itself requires navigating steps, though the area around it is accessible.

The route includes one toilet facility and a cafe. Additional food and drink options are available just across the bridges in the town centre.

This park was once part of a historic farming estate centered around Ynysangharad House, home to the Lenox family, who started the Brown Lenox Chain Works.

The long brick wall you see today marks the spot where the house's kitchen garden once stood. Now it's a key part of our heritage and learning centre, bringing history to life for visitors of all ages.

Since 1926, families and friends have gathered here to enjoy brass band music, a cherished tradition in our community.

These bands were formed by local miners, reflecting the rich cultural heritage of the area.

Opened in 1923, Ynysangharad War Memorial Park was created to honour those who lost their lives in the First World War (1914-1918).

Today, it serves as a place where we come together to remember and pay tribute to all who served in wars, past and present.

Cricket has been a cherished sport here for over 150 years. With the support of Lewis Gordon Lenox, a dedicated cricket ground was established in 1924.

The park also offers facilities for bowls, tennis and football. Before moving to Sardis Road in 1974, Pontypridd Rugby Club played here.

Can you spot the coal dram? These wagons were once used to carry coal from deep underground to the surface.

Originally, children and women would push them through the mines. This was placed here to remind us of the Miner's Welfare Fund, which helped purchase the park for the town's people.

The Lido opened in 1927 as a special place for families to enjoy and stay active, thanks to the Miners' Welfare Fund.

After being closed for more than 29 years, it was lovingly restored and reopened in 2015. The renovation included bringing back its historic features and adding a new visitor centre, making it a wonderful spot for fun and relaxation for all ages.

This drinking fountain is dedicated to Lewis Gordon Lenox, who supported the creation of the park.

His family's factory in Pontypridd made massive chains for ships and other industries. Over 120 years ago, they were even making the world's largest anchor chains!

As you walk along the path, you will see figures that remind us of the many local people who served during World War including soldiers, sailors, airmen and nurses.

These heroes played an important role in the war effort.

This memorial honours Evan and James James, a father and son duo who created the Welsh National Anthem, "Hen Wlad Fy Nhadau" (Land of My Fathers), right here in Pontypridd in 1856.

The statue, created by famous Welsh sculptor William Goscombe John, celebrates their contribution to music and poetry.

Cysylltiadau Hanesyddol

Amser maith yn ôl, tir fferm oedd yma ac roedd yn rhan o ystad fawr o'r enw Tŷ Ynysangharad.

Roedd teulu'r Lenoxes yn byw yma. Diwydianwyr oedden nhw a oedd yn gwneud cadwyni angori enfawr ar gyfer llongau!

Cafodd Gwaith Cadwyni Brown Lenox ym Mhontypridd ei adeiladu yn 1818. Er mwyn creu'r cadwyni, roedd angen digonedd o lo a haearn, a oedd ar gael yn yr ardal yma.

Does dim llawer o'r hen ystad ar ôl heddiw, ond os edrychwch chi ar y wal frics felen o amgylch Canolfan Calon Taf, fe welwch chi ei bod hi'n dilyn yr un llinell â hen ardd lysiau'r ystad. Mae hyd yn oed yn cysylltu â darn bach o'r wal gerrig wreiddiol.

Historic Links

A long time ago, before this was a park, it was farmland and part of a big estate called

Ynysangharad House.

A family called the Lenoxes lived here, they were industrialists who made huge anchor chains for ships! They built their Brown Lenox Chainworks in Pontypridd in 1818 because the area had plenty of coal and iron, which they needed to make their chains.

Not much of the old estate is left today, but if you look at the yellow brick wall around Calon Taf, you will see it follows the same line as the estate's old kitchen garden. It even connects to a small piece of the original stone wall, a little piece of history still standing in the park!

Mynd am dro yng nghanol byd natur... Taith Trwy Natur a Hanes

Mae ein parc 13 hectar yn fan arbennig lle mae natur a hanes yn dod ynghyd. Ar un adeg roedd yn rhan o ystad Tŷ Ynysangharad, a heddiw mae'n frith o gynefinoedd fel gerddi blodau gwyllt, coetiroedd, a glan yr afon. Rydym ni'n gweithio i ddiogelu'r dreftadaeth naturiol yma trwy adael i fiodau gwyllt fel Deintlys a Britheg dyfu.

Wrth i chi grwydro, cymerwch saib wrth ymyl y gwylau blodau gwyllt yn yr Ardd Isel. Yma, byddwch chi'n gweld cawen prysur a glöynnod byw lliwgar yn y gwanwyn a'r haf. Mae gwrychoedd y parc yn gartref i adar fel y Robin Goch a'r Dryw, ac mae hynny'n wir ers cenedlaethau. Edrychwch am y rhodfeydd o goed, gan gynnwys Deri Twrca a Chastanwydd, sydd wedi bod yma ers blyneddau, gan ein cysylltu â hanes cyfoethog y parc.

Walk on the Wild Side... A Journey Through Nature and History

Our 13-hectare park is a special place where nature and history come together. It was once part of the Ynysangharad House estate, and today it's filled with habitats like wildflower gardens, woodlands, and the riverside. We're working to protect this natural heritage by letting wildflowers like Toothwort and Snakeshead grow.

As you explore, stop by the wildflower beds in the Sunken Garden, where you'll see busy Bumble Bees and colourful butterflies in spring and summer. The parks hedgerows are home to birds like Robins and Wrens, just as they have been for generations. Look out for the avenues of trees, including Turkey Oaks and Horse Chestnuts, which have stood here for years, linking us to the park's rich history.

Awydd ychydig o hwyl wrth i chi ddilyn y llwybr?

Dyma rai gweithgareddau hwyl i chi roi cynnig arny'n nhw yn ystod eich taith gerdded.

Fancy some fun as you do the trail? Here are some fun activities for you to try during your walk.

1 CALON TAF
Allwch chi ddod o hyd i hen ddarn o wal wreiddiol yr ardd ger Calon Taf? Ar un adeg, roedd y wal yma'n amgylchynu gardd lysiau Tŷ Ynysangharad.

Can you find the old fragment of the original garden wall near Calon Taf? This wall once surrounded the kitchen garden of Ynysangharad House.

9 COFEB EVAN JAMES A JAMES JAMES
Canwch dros Gymru! Beth am wrando ar Anthem Genedlaethol Cymru trwy'r postyn sain a naill ai arwain, cydganu, neu greu eich dawns arbennig eich hun?

EVAN AND JAMES JAMES MEMORIAL
Sing for Wales! Play the Welsh National Anthem on the sound post and either conduct, sing along, or create your own special dance.

Gogledd North De South



SAFLE SEINDORF

Evch i'r safle seindorf a chael hwyl. Beth am greu sŵn fel band gorymdeithio?

BANDSTAND

Step inside the bandstand and stomp your feet. Can you tap out a rhythm like a marching band?

COFEB RYFEL

Mae pab yn symbol o goffad. A welwch chi rai ger yr ardd goffa?

WAR MEMORIAL

Poppies are a symbol of remembrance. Can you find any near the memorial garden?

CHWARAEON

Her Chwaraeon! Sawl camp wahanol mae modd ichi ei gweld yn y parc? Beth am enwi o leiaf tair camp a gafodd eu chwarae yma 100 mlynedd yn ôl?

SPORTS

Sports Challenge! How many different sports can you spot in the park? Can you name at least three that were played here 100 years ago?

GARDD ISEL YN Y DULL EIDALAIDD

Yr Ardd Isel Dychmygwch fod yn löwr. Cymerwch hunlun a rhoi cynnig ar wthio'r dram drwm fel y gwnaeth gweithwyr o dan ddaear ar un adeg.

ITALIAN-STYLE SUNKEN GARDEN

Imagine being a miner. Take a selfie pretending to push the heavy dram like workers once did underground.

Mynediad i'r Parc

Prif Gatiau
i Stryd y Bont

Gatiau Cerddwyr
i Stryd y Bont

Pont Dyffryn Taf
i ganol y dref/Stryd Taf drwy Lys Cadwyn (Llyfrgell)

Pont M&S
i Borth y De, Stryd Taf a Stryd y Felin

Gât Llwybr Taith Taf
i Drefforest ar hyd Llwybr Taith Taf

Access to the Park

Main Gates
To Bridge Street

Pedestrian Gates
To Bridge Street

Taff Vale Bridge
To Taff Street via Lys Cadwyn (Library)

M&S Bridge
To Southern Gateway, Taff Street and Mill Street

Taff Trail Gate
To Treforest via the Taff Trail

Y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol

Llwybr Celtaidd 4 The Celtic Trail

Llwybr Taf 8 Taff Trail

Panel Gwybodaeth

Postyn Sain Listening Post

Toileddau Toilets

Chwarae'r Lido Lido Play

Swyddfa'r Ceidwad Cymorth Cyntaf Rangers Office First Aid

Caffi Cafe

Lido Pontypridd Lido Pontypridd National Lido of Wales

Pafiliwn Criced Cricket Pavilion

Lawnt Fowlio Bowls Green

Ardaloedd Bywyd Gwyllt Wild Zone

Ardal Ymarfer Corff i Gŵn Dog Exercise Area



Hanes Dwy Afon

Wyddoch chi fod dwy afon yn cwrdd ger pont droed y de? Dyma lle mae Afon Rhondda yn ymuno ag Afon Taf, sy'n golygu mai Pontypridd yw porth Cymoedd y Rhondda! Mae Afon Taf yn amgylchynu dwy ochr y parc, bron fel cwtsh mawr. Tybed ai dyna'r rheswm dros gynnwys "ynys" yn yr enw?

A Tale of Two Rivers

Did you know that two rivers meet near the southern footbridge? This is where the River Rhondda joins the River Taff, making Pontypridd the gateway to the Rhondda Valleys! The Taff wraps around two sides of the park, almost like a big hug. Maybe that's why the park's name includes the Welsh word "ynys" which means island!

Diolch am alw heibio – bydden ni wrth ein boddau'n clywed am eich ymweliad!

Rhannwch eich atgofion, ymunwch â'n hachlysuron, a chadwch mewn cysylltiad â ni ar gyfryngau cymdeithasol, trwy ymweld â'n gwefan neu anfon e-bost aton ni.

Thank you for visiting – we'd love to hear about your visit!

Share your memories, join our events, and stay connected with us on social media, by visiting our website or emailing us.

CalonTaf@rctcbc.gov.uk

   **CalonTaf**



**Gobeithio eich bod
wedi mwynhau archwilio
ein parc bendigedig!
Os oeddech chi wrth eich
bodd â'r llwybr yma, beth am
roi cynnig ar ein Llwybr Bywyd
Gwylt neu Lwybr Coed?**

Ewch i Ganolfan Calon Taf i nôl
taflen am ddim neu ei
lawrlwytho o'n gwefan.

CalonTaf.co.uk



**We hope you've enjoyed
exploring our wonderful park!
If you loved this trail, why not
try our Wildlife or Tree Trail?**

You can pick up a free leaflet
from Calon Taf or download
it from our website.

Beth sydd ar y gweill gyda chi?

I gael syniadau ac ysbrydoliaeth am
lefydd yn Rhondda Cynon Taf i fwyta,
aros neu ymweld â nhw, ewch i...

www.croesorhct.cymru

Wondering what to do next?

For ideas & inspiration on places to
visit, eat or stay in Rhondda Cynon Taf
check out...

www.visitrct.wales

